


Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026

# Celf Gyhoeddus mewn Datblygiadau Newydd



Canllawiau  
Cynllunio Atodol

Gorffennaf 2018





## **Cynnwys**

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Pwrpas y ddogfen .....	2
3.	Statws y Canllawiau .....	3
4.	Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi .....	4
5.	Celf Gyhoeddus – Diffiniad, Buddion a Rolau .....	9
6.	Gofynion Celf Gyhoeddus .....	12
7.	Gofynion Cais Cynllunio.....	14
8.	Gweithredu.....	15
9.	Contractau .....	20
10.	Perchnogaeth Gyfreithiol a Chynnal a Chadw.....	21
11.	Rhagor o Wybodaeth a Chyngor .....	22
12.	Atodiadau: .....	23
12.1.	Atodiad 1: Polisiâu Cynllun Datblygu Lleol .....	23
12.2.	Atodiad 2: Enghreifftiau Llwyddiannus Diweddar o Gelf Gyhoeddus .....	25

# 1. Cyflwyniad

- 1.1. Er mwyn cefnogi ei ymrwymiad i gyflawni safonau dylunio uchel mewn datblygiadau a gwella manau cyhoeddus, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ceisio ymgorffori celf gyhoeddus mewn datblygiadau newydd mawr ers iddo gyflwyno polisi celf gyhoeddus ym mis Gorffennaf 2003. Cynorthwyodd hyn i feithrin ymdeimlad o le a chymeriad unigryw mewn datblygiadau newydd sydd, yn eu tro, wedi cyfrannu at lesiant a synnwyr balchder sydd gan drigolion yn eu datblygiad.
- 1.2. Mae Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg 2011-2026 yn cynnwys nifer o bolisiau ar gyfer rheoli datblygiad yn y dyfodol ym Mro Morgannwg sy'n berthnasol i ddyluniad datblygiadau newydd ac integreiddio celf gyhoeddus yn llwyddiannus. Ceisia'r Canllawiau Cynllunio Atodol presennol gefnogi'r polisiau hyn trwy esbonio ymagwedd y Cyngor tuag at ymgorffori celf gyhoeddus mewn datblygiadau newydd.

## 2. Pwrpas y ddogfen

2.1. Paratowyd y CCA hwn i roi canllawiau ar sut y darperir celf gyhoeddus yng nghyd-destun cynigion datblygu newydd. Bydd y canllawiau yn cynorthwyo cynllunwyr, datblygwyr a thirfeddianwyr i gwrdd â dull rhagweithiol y Cyngor o gyflawni ansawdd dylunio o fewn ac o gwmpas datblygiadau newydd, trwy ddarparu celf gyhoeddus.

2.2. Mae'r CCA hwn:

- Yn amlinellu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi sy'n cefnogi cais y Cyngor am gelf gyhoeddus fel rhan o gynigion datblygu newydd;
- Yn darparu diffiniad o gelf gyhoeddus; y manteision a allai fod iddi o ran creu datblygiadau cynaliadwy ym Mro Morgannwg;
- Yn amlinellu pan fydd angen celf gyhoeddus; sut y bydd cyfraniadau celf gyhoeddus yn cael eu cyfrifo, a sut y dylid cyflwyno celf gyhoeddus fel rhan o gynigion datblygu newydd;
- Yn nodi camau allweddol ar gyfer cyflwyno cynnig celf gyhoeddus yn llwyddiannus;
- Yn nodi mecanweithiau lle gellir caffael arbenigedd artistiaid proffesiynol er mwyn cynorthwyo i greu lle nodedig a bywiog i fyw; a
- Sicrhau dilyn arferion gorau mewn ffordd gyson ac agored.

2.3. Nid yw'r Cyngor yn cynnig dull cyffredinol o ddarparu a chomisiynu celf gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r CCA hwn yn nodi protocol y dylai datblygwyr ei ddilyn er mwyn gwneud y mwyaf o werth y cyfraniad celf gyhoeddus i'r datblygiad a'r gymuned leol.

2.4. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfraniad i ddarparu celf gyhoeddus naill ai trwy amodau cynllunio neu, lle bo'n briodol, trwy Gytundebau Adran 106.

2.5. Mae'r CCA hwn hefyd yn cefnogi Strategaeth Celf Gyhoeddus y Cyngor i Fro Morgannwg (2014-2017) sy'n nodi dyheadau'r Cyngor ar gyfer gweithredu ei Bolisi Celf Gyhoeddus ar draws Bro Morgannwg.

### **3. Statws y Canllawiau**

- 3.1. Cymeradwywyd canllawiau drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Cabinet ar 30 Ebrill 2018 a chynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori chwe wythnos rhwng dydd Mawrth 8 Mai a dydd Mawrth 19 Mehefin 2018 gyda'r dogfennau perthnasol ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor ac ar wefan y Cyngor. Ystyriodd y Cyngor y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyn cwblhau'r ddogfen hon, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 30 Gorffennaf 2018. Bydd yr arweiniad hwn yn ystyriaeth berthnasol bellach mewn penderfyniadau cynllunio perthnasol.
- 3.2. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 9 (Tachwedd 2016) yn cynghori y gellir ystyried CCA fel ystyriaeth berthnasol pan y'i paratowyd mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd a phartïon â diddordeb, a'i fod yn gyson â'r cynllun datblygu. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CCA yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau yn y dyfodol ym Mro Morgannwg.

## 4. Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

### 4.1. Deddfwriaeth Berthnasol

4.1.1. Mae Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd gan Adran 12 o'r Ddeddf Cynllunio ac Iawndal (1991) a Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'i diwygiwyd), yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i sicrhau celf gyhoeddus fel rhwymedigaeth gynllunio. Fel arall, gellir sicrhau celf gyhoeddus trwy amod.

4.1.2. Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gosod gofyniad ar bob corff cyhoeddus i weithredu i gefnogi egwyddorion datblygu cynaliadwy, yn unol â'r saith nod llesiant sy'n diffinio'r hyn yw datblygiad cynaliadwy yng Nghymru. Cynhwyswyd celf o fewn y nodau llesiant hyn o dan yr amcan 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', a ddiffinnir fel "*Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden*".

### 4.2. Polisi Cenedlaethol

4.2.1. Mae **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9, Tachwedd 2016) (PCC)** yn nodi'r fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru. Mae PCC yn diffinio 'Datblygu Cynaliadwy' fel "*y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyrraedd y nodau llesiant*". Cydnabyddir y celfyddydau fel rhan o lesiant diwylliannol Cymru.

4.2.2. Mae **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio (2016)** yn cydnabod y rhan bwysig mae celf gyhoeddus yn ei chwarae o ran creu neu wella hunaniaeth a hynodrwydd, ac o ran codi proffil trefi, pentrefi, dinasoedd a thirwedd drefol a gwledig (cyfeiria Adran 5.15 y TAN at hyn).

*"5.15.1 Mae celfyddyd gyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn creu neu'n amlygu unigoliaeth ac arbenigrwydd, ac yn codi proffil ein dinasoedd, ein trefi, ein pentrefi a'n tirwedd wledig a threfol. Drwy integreiddio crefft neu waith artist proffesiynol, gellir ychwanegu gwerth a defnyddio celfyddyd gyhoeddus mewn mannau allweddol i gyfoethogi'r amgylchfyd cyhoeddus a'i wneud yn fwy eglur. Mae cyfleoedd dirifedi i integreiddio celfyddyd gyhoeddus o fewn y treflun, a'r gelfyddyd honno'n amrywio o'r dramatig i'r cynnil, o gerfluniau*

*traddodiadol, gweithiau er coffa ac ymyriadau achlysurol llai i weithiau integredig sy'n defnyddio cyfryngau cyfoes a rhyngweithiol fel sain neu oleuadau. Gellir hefyd ystyried defnyddio dylunio arloesol ar ddodrefn stryd ac elfennau ymarferol eraill ac, yn gynyddol, drwy ddylunio'r llawrlun, rheiliau, goleuadau ac arwyddion gyda dychymyg, deuir â gwedd unigryw a hunaniaeth i fwy a mwy o wrthrychau bob dydd. Drwy ddewis lleoliad yn ofalus a defnyddio deunyddiau cyffyrddol, gall celfyddyd gyhoeddus fod yn hygyrch i bawb, a dylai fod felly, heb danseilio hygyrchedd cyffredinol.*

*5.15.2 Mae celfyddyd gyhoeddus yn ychwanegu dimensiwn cymdeithasol a diwylliannol at ymweliad â chanol tref, a gall ddod â budd i'r economi ddiwylliannol a hwb i dwristiaeth ddiwylliannol, yn ogystal â darparu amgylchedd diddorol sy'n annog siopwyr i loetran, gyda manteision amlwg i fasnachwyr lleol. Er mwyn llwyddo rhaid wrth ymrwymiad i ansawdd da o ran cysyniad, dylunio, crefftwaith a deunyddiau ym mhob gwaith celf a gomisiynir.*

*5.15.3 Mae swyddogaeth unigryw celfyddyd gyhoeddus fel offeryn adfywio wedi ei hen gydnabod yng Nghymru ac yn rhyngwladol ac mae'r Strategaethau Celfyddyd Gyhoeddus a gynhyrchwyd ac a fabwysiadwyd gan nifer o awdurdodau cynllunio lleol yn fuddiol yn y cyd-destun hwn. Gall y sector preifat noddi projectau celfyddyd cyhoeddus, yn enwedig pan gynigir codi datblygiadau mawr, ac mae digon o gynsail i hynny. Gall gweithredu arloesol, pwrpasol a chyfoes hefyd ddenu cyfraniadau o du ymddiriedolaethau a sefydliadau yn y maes, yn ogystal â symbylu cyhoeddusrwydd a gwerth marchnata sylweddol.*

*5.15.4 Dylid ystyried celfyddyd gyhoeddus yn gynnar yn y broses ddylunio a dylai fod yn rhan annatod o ddyluniad cyffredinol adeilad, man cyhoeddus neu le. Dylai'r artistiaid a ddewisir a natur y gwaith a lunnir yn ddiweddarach fod yn destun cydweithio llawn o'r cychwyn rhwng yr artist, y gymuned leol a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses ddylunio. Mae ennyn ymdeimlad o berchnogaeth leol a chyfrifoldeb cyhoeddus am y gwaith celfyddydol yn hanfodol i lwyddiant hirdymor projectau celfyddyd gyhoeddus. Dylid ymgynghori â gweithwyr celfyddyd gyhoeddus proffesiynol mor gynnar â phosibl i nodi'r cyfleoedd ac i ddarparu cyngor proffesiynol i awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr."*

- 4.2.3. Noda **Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru (2016)** ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwylliant, gan gynnwys y celfyddydau, cerddoriaeth, llenyddiaeth a threftadaeth. Yn y



ddogfen hon, mae'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo gwahanol fathau o ddiwylliant, er mwyn "*creu lleoedd amrywiol, bywiog a hyfyw*".

### 4.3. Polisi Lleol

4.3.1. **Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Cyngor Bro Morgannwg (CDLI) 2011-2026** yw'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal. Er mwyn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer y cynllun, datblygwyd nifer o amcanion strategol allweddol. Yr amcanion allweddol mewn perthynas â chelf gyhoeddus yw Amcanion: 4, 5, 9, 10:

- Amcan 4: Diogelu a gwella amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol Bro Morgannwg.
- Amcan 5: Cynnal, gwella a hyrwyddo cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ym Mro Morgannwg.
- Amcan 9: Creu cyrchfan dwristiaeth ddeniadol gyda delwedd gadarnhaol ar gyfer Bro Morgannwg, annog datblygiad cynaliadwy a chyfleusterau o ansawdd i gyfoethogi'r profiad i ymwelwyr a thrigolion.
- Amcan 10: Sicrhau bod datblygiad ym Mro Morgannwg yn defnyddio tir yn effeithiol ac yn effeithlon, ac yn hyrwyddo defnydd cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol.

4.3.2. Er mwyn cefnogi amcanion y cynllun, mae nifer o bolisiau ar gyfer rheoli datblygiad yn y dyfodol ym Mro Morgannwg sy'n berthnasol i ddyluniad datblygiadau newydd ac integreiddio celf gyhoeddus yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Polisi MD2 (Dyluniad Datblygiadau Newydd)** sy'n nodi'r egwyddorion a'r ystyriaethau allweddol ar gyfer creu lleoedd o ansawdd uchel, iach, cynaliadwy a hynod yn lleol y dylai cynigion datblygu ymateb iddynt. Mae'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd fod o safon uchel sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun a chymeriad yr amgylchedd cyfagos (maen prawf 1). Mae'r polisi hefyd yn mynnu bod datblygiadau, lle bo'n briodol, yn darparu ardaloedd newydd o dir y cyhoedd, yn enwedig mewn lleoliadau allweddol megis canol trefi, prif lwybrau a chyffyrdd (maen prawf 3).

- **MD4 (Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio)** sy'n nodi gofyniad y Cyngor ar gyfer celf gyhoeddus, lle bo'n briodol a chan ystyried hyfywedd datblygiad.
- 4.3.3. Dangosir y polisiâu hyn yn Atodiad 1. Wrth ystyried darparu celf gyhoeddus, byddai'n werth ystyried gofynion polisi eraill a sut y gall y gofynion hyn gyflwyno cyfleoedd ar gyfer integreiddio celf gyhoeddus, fel manau agored cyhoeddus (Polisi MD3 Darparu Manau Agored).
- 4.3.4. Mae'r **Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio (CCA)** yn rhoi eglurhad o ble, beth, pryd a sut y gofynnir am rwymedigaethau cynllunio i gynorthwyo'r Cyngor i greu cymunedau cynaliadwy sy'n darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Noda Atodiad 2 o fewn y CCA y trothwy datblygu ar gyfer celf gyhoeddus.
- 4.3.5. Mae'r **CCA Datblygu Cartrefi a Phreswyl** yn darparu canllawiau ar yr amrywiol ystyriaethau dylunio y dylid eu hystyried wrth gynllunio datblygiad preswyl newydd, ac mae integreiddio celf gyhoeddus lle bo'n briodol yn un o'r ystyriaethau hynny.
- 4.3.6. **Strategaeth Celfyddydau a Diwylliant: Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant 2017 – 2022.** Mae'r strategaeth hon yn nodi cynllun cyflenwi ar gyfer cynyddu gweithgarwch celfyddydol ym Mro Morgannwg a datblygu cyfleoedd newydd i greu rhaglen gelfyddydol i'r 21ain ganrif, sy'n atgyfnerthu ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol a pherthyn, a sicrhau bod cyfleoedd mynediad ac ymgysylltu ar draws yr holl gelfyddydau a diwylliant yn hygyrch i'r holl drigolion ac ymwelwyr â Bro Morgannwg. Canolir y strategaeth hon o amgylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru, a chanlyniadau pedwar llesiant y Cyngor a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol:
- Bro Gynhwysol a Diogel.
  - Bro Lewyrchus a Chyfrifol yn Amgylcheddol.
  - Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant.
  - Bro Egnïol ac Iach.
- 4.3.7. Mae'r strategaeth yn ailadrodd ei bod yn ofynnol i bob datblygiad newydd neilltuo o leiaf un y cant o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer comisiynu artistiaid i gyfrannu at elfen tir y cyhoedd y project ac fe'i cynhwysir mewn canllawiau cynllunio arbennig o dan gytundeb Adran 106, ac mae cynigion gwaith celf yn ddarostyngedig i'w cymeradwyo gan Gyngor Bro Morgannwg.

4.3.8. Mae'r strategaeth yn croesi dau faes sy'n cynnwys Celf Gyhoeddus:

- **Bro Lewyrchus a Chyfrifol yn Amgylcheddol:**

Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol y celfyddydau i ddarparu comisiynau celf gyhoeddus, gweithdai creadigol, hyfforddi a rhannu sgiliau a dylunio.

- **Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant:** sy'n nodi bod gan bob dinesydd Bro Morgannwg gyfleoedd i gyflawni eu potensial llawn.

4.3.9. Mae adrannau'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i nodi cyfleoedd ar gyfer darparu projectau celf gyhoeddus, a gomisiynir fel arfer gan, neu sy'n cydweithio â, datblygwyr, penseiri, dylunwyr tirwedd a rhanddeiliaid eraill. Mae Strategaeth Gelf Gyhoeddus Bro Morgannwg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor geisio sicrhau o leiaf 1% o gostau'r project datblygu ar gyfer comisiynu celf gyhoeddus.

4.3.10. Gall gwaith celf ar dir y cyhoedd helpu i greu hunaniaeth leol unigryw, gan wella'r amgylchedd a chreu synnwyr o le. Mae'r pwyslais ar ddyluniad da, dull cydweithredol, creadigol, datrys problemau ac arloesi ac, felly, mae gwaith celf gyhoeddus yn benodol i safleoedd, yn unigryw ac yn sicr nid yw'n golygu gwrthrychau a gaiff eu masgynhyrchu, na'u hatgynhyrchu.

## 5. Celf Gyhoeddus – Diffiniad, Buddion a Rolau

### 5.1. Beth yw Celf Gyhoeddus?

5.1.1. Mae 'Celf Gyhoeddus' yn cwmpasu sbectrwm helaeth o arferion a ffurfiau celf: o gerfluniau parhaol i waith celf dros dro; henebion; cofebion; arferion sy'n gysylltiedig â chymdeithas; projectau cymunedol; rhaglenni amgueddfa ac oriel oddi ar y safle; celfwaith a chelf tir; gwaith sy'n benodol i'r safle; dodrefn stryd, dyluniad trefol, a dyluniadau pensaernïol integredig. Gellir dosbarthu popeth o dan y term 'celf ar dir y cyhoedd'.

5.1.2. Felly, mae celf gyhoeddus yn faes aml-wedd, sy'n newid yn barhaus ac yn esblygu er mwyn ymgysylltu ymhellach â'r gymuned ehangach. Ar ei mwyaf sylfaenol, mae'n ymatebol i'r safle, ac mae'n ymwneud â'r broses o ymateb artistiaid i bobl, lle, diwylliant a threftadaeth.

5.1.3. Mae'r Cyngor yn annog pob datblygwr sy'n ceisio caniatâd cynllunio (boed ar gyfer adeiladu newydd, adsefydlu, adfer, neu waith tirlun allanol), i ystyried sut y gellir integreiddio celf gyhoeddus yn eu cynlluniau. Gall gwaith o'r fath gynnwys:

- **Gwaith Parhaol** megis gwaith celf tri-dimensiwn ar raddfa fawr, dodrefn stryd pwrpasol, gwaith coffa neu waith dau- a thri-dimensiwn integredig;
- Comisiynau Dros Dro, Byrhoedlog neu Drwy Brofiad o osodiadau ac arddangosfeydd i berfformio a gweithiau cyfranogol sydd i'w gweld am oriau neu am flynyddoedd, yn cynnig cyfleoedd cyffrous i artistiaid a'r cyhoedd yn gyffredinol, tra'u bod yn ymatebol i newid anghenion cymunedol a datblygiad y safle. Mae hyn yn cynnwys Artistiaid Preswyl sy'n annog artistiaid ym mhob disgyblaeth i archwilio dulliau gweithio newydd a datblygu profiadau celfyddydol rhyngweithiol yn gymdeithasol mewn lleoliadau cymunedol; a
- **Comisiynau Mewnol** lle mae mynediad dirwystr i'r cyhoedd gydol yr amser neu'r rhan fwyaf o'r amser.

5.1.4. At ddibenion y canllawiau hyn, mae celf gyhoeddus yn cyfeirio at waith celf mewn unrhyw gyfrwng sy'n waith artist neu ddylunydd byw, proffesiynol, ac a grëir ar gyfer lle penodol, a gomisiynir gan neu sy'n gweithio ar y cyd ag eraill, megis datblygwyr, awdurdodau lleol,

swyddogion celfyddydol, cynllunwyr, penseiri, dylunwyr tirlun neu'r gymuned leol a'i chynrychiolwyr.



**Llun:**

***Glan y Dŵr yn Y Barri –  
Celf Gyhoeddus ar bont  
newydd***

**Llun:**

***Cei Jackson Y Barri: Celf gyhoeddus –  
cerflunwaith coeden fetel***



**Llun:**

***Stryd Merthyr, Y Barri –  
Celf Gyhoeddus mewn  
rheiliau terfyn***

## 5.2. Beth yw Buddion Celf Gyhoeddus?

5.2.1. Mae'r budd cyffredinol o gomisiynu celf gyhoeddus yn gorwedd yn y cyfraniad a wna dyluniad artistiaid a phenseiri i ganfyddiad y cyhoedd o le, gan ychwanegu ymdeimlad o wreiddioldeb a hunaniaeth. Yn ychwanegol at hyn, gall projectau celf gyhoeddus sydd wedi'u dylunio a'u cynllunio'n dda, gyflenwi cyfres eang o ganlyniadau positif sydd o fudd i bobl, lleoedd a datblygwyr fel ei gilydd, fel a ganlyn:

### **Cymuned:**

- Perchnogaeth ac ymgysylltu â mannau a lleoedd;
- Cyfrannu at adeiladu cymunedol a chydlyniant cymdeithasol;
- Grymuso'r gymuned i wneud penderfyniadau;
- Lleihau fandaliaeth a chynyddu balchder cymunedol a phryder am yr amgylchedd lleol;
- Gwneud lleoedd:
- Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig;
- Cyfrannu at hynodrwydd lleol;
- Gwella mannau pwysig a chynyddu'r defnydd o fannau agored;
- Helpu i integreiddio datblygiadau newydd gyda'r amgylchedd adeiledig presennol;
- Gosod y datblygiad ar wahân i gynlluniau tebyg;
- Gwella ansawdd yr amgylchedd trwy greu gwaith celf;
- Gwella cysylltedd trwy'r datblygiad cyfan;

### **Datblygwr:**

- Gwella ansawdd y datblygiad ac felly ei werth ar y farchnad;
- Atgyfnerthu proffil ac enw da'r datblygwr;
- Cynhyrchu ewyllys da a chefnogaeth yn lleol i'r datblygiad.

## **6. Gofynion Celf Gyhoeddus**

### **6.1. Pryd fydd angen Celf Gyhoeddus?**

6.1.1. Bydd angen celf gyhoeddus ar bob prif ddatblygiad preswyl a dibreswyl (h.y. masnachol), sydd, er mwyn osgoi amheuaeth, yn cynnwys cynigion ar gyfer:

- 10 neu fwy o anheddau neu arwynebedd safle o 0.5 hectar neu fwy; neu
- 1000m sgwâr o ofod llawr newydd neu i geisiadau amlinellol lle mae ardal y safle yn 1 hectar neu fwy.

### **6.2. Sut y cyfrifir cyfraniadau Celf Gyhoeddus?**

6.2.1. Bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr neilltuo o leiaf 1% o'u cyllideb project, yn seiliedig ar gostau adeiladu, ar gyfer darparu celf gyhoeddus. I gyfrifo'r 1% ar gyfer celf gyhoeddus, bydd angen i'r datblygwr ddarparu amcangyfrif ysgrifenedig manwl o gostau adeiladu ei gynnig. Yn gyffredinol, bydd costau adeiladu'n cwmpasu'r holl gostau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r adeiladau ar y safle, ond nid yw'n cynnwys y gost o brynu tir, seilwaith y safle, ffioedd proffesiynol a chostau annormal.

6.2.2. Pan fo datblygwr yn dadlau bod hyfywedd yn broblem, neu fod y gofyniad celf gyhoeddus yn rhy feichus ac y bydd o bosibl yn gwneud y cynllun yn anymarferol, bydd disgwyl i'r datblygwr gyflwyno dadansoddiad o'r costau datblygu, gwerth y gwerthiannau a'r elw a ragwelir yn seiliedig ar dystiolaeth briodol. Mae CCA Tai Fforddiadwy mabwysiedig y Cyngor yn nodi'n fanylach y wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi gwerthusiad hyfywedd a'r broses ar gyfer ystyried materion o'r fath.

6.2.3. Os profir bod hyfywedd yn broblem, bydd gwerth unrhyw gyfraniad celf gyhoeddus yn cael ei bennu ar sail safle penodol gan ystyried natur y safle a datblygiad, yn unol â Pholisi MD4 y CDLI.

### **6.3. Sut y cyflenwir Celf Gyhoeddus?**

6.3.1. Gellir cyflenwi celf gyhoeddus mewn tair ffordd fel rhan o gynigion datblygu newydd:

- **Opsiwn 1:** Mae'r datblygwr yn caffael ac yn gweithredu celf gyhoeddus **ar y safle** 'mewn nwyddau' sy'n rhan annatod o'r datblygiad. Yn y mwyafrif o achosion, dyma hoff ddewis y Cyngor.
- **Opsiwn 2:** Mae'r datblygwr yn caffael ac yn gweithredu celf gyhoeddus **oddi ar y safle**, 'mewn nwyddau', yng nghyffiniau'r safle datblygu, ar dir sy'n hygyrch i'r cyhoedd, megis mewn parciau a mannau agored; adeiladau cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a datblygiadau priffyrdd strategol, yn amodol ar gytundeb gyda'r perchennog tir perthnasol neu yn achos tir sy'n eiddo i'r Cyngor, adran berthnasol y Cyngor.
- **Opsiwn 3:** Mae'r datblygwr yn talu **cyfraniad ariannol oddi ar y safle** i'r Cyngor, er mwyn i'r Cyngor ddarparu celf gyhoeddus yng nghyffiniau'r safle neu mewn ardaloedd lle byddai ymyrraeth celf gyhoeddus o fudd i gymuned neu ardal fel y nodwyd yn 5.1.1.
- Neu gyfuniad o'r opsiynau uchod.

6.3.2. Yn y lle cyntaf, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ystyried celf gyhoeddus ar y safle sy'n rhan annatod o'r datblygiad (Opsiwn 1). Ni fydd y Cyngor yn cytuno ar gyfraniad oddi ar y safle naill ai 'mewn nwyddau' neu'n ariannol (opsiynau 2 a 3), ac eithrio ar y seiliau canlynol:

- i. dangosir bod amgylchiadau eithriadol i esbonio pam na ellir darparu celf gyhoeddus ar y safle, er enghraifft, mae'r safle wedi'i gyfyngu'n ffisegol ac nid oes ond cyfle cyfyngedig ar gyfer celf gyhoeddus; a/neu
- ii. mae er budd y cyhoedd a buddiannau meddianwyr y datblygiad i'r dyfodol fod y gelf gyhoeddus yn cael ei darparu oddi ar y safle, naill ai 'mewn nwyddau' neu fel cyfraniad ariannol; er enghraifft, pe byddai cyfraniad celf gyhoeddus yn gwella project adfywio sy'n parhau yn yr ardal.

6.3.3. Ystyrir hyn fesul safle, yn seiliedig ar nodweddion y cynnig datblygu, a'r cyfleoedd yn yr ardal gyfagos.



## 7. Gofynion Cais Cynllunio

- 7.1. Bydd y Cyngor yn delio â chynigion celf gyhoeddus fel ystyriaeth berthnasol wrth bennu ceisiadau cynllunio ar gyfer cynigion datblygu mawr. Yn ddelfrydol, cefnogir ceisiadau gan strategaeth gelf gyhoeddus a byddant yn rhoi manylion o'r ffordd y cafodd celf gyhoeddus ei hystyried yn y broses ddylunio a sut y bydd yn cael ei hintegreiddio yn y datblygiad terfynol.
- 7.2. Mae gofyniad statudol ar ddatblygwyr i gyflwyno adroddiad Ymgynghori Cyn Cais (PAC) fel rhan o unrhyw gais cynllunio ar gyfer datblygiad "mawr". Fel rhan o'r broses PAC, mae'n ofynnol i ddatblygwyr gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio gydag "ymgyngoreion cymunedol" ac "ymgyngoreion arbenigol". Mae hyn yn gyfle delfrydol i geisio ymgysylltu'n gynnar â'r gymuned leol am gynigion celf gyhoeddus, ac mae'r adroddiad PAC yn rhoi cyfle i nodi materion allweddol yn ymwneud â hyn.
- 7.3. Os na chynhwysir manylion fel rhan o'r cais cynllunio, sicrheir celf gyhoeddus naill ai trwy amod cynllunio neu drwy Gytundeb Adran 106.
- 7.4. Bydd angen y manylion canlynol i gyflawni'r amod/cydymffurfio â'r rhwymedigaeth:
  - Dadansoddiad o gostau adeiladu, er mwyn pennu'r cyfraniad celf gyhoeddus o 1%;
  - Cynllun wedi'i gostio ar gyfer darparu celf gyhoeddus, gan gynnwys darluniau manwl;
  - Amserlen ar gyfer gweithredu;
  - Disgrifiad o'r broses gomisiynu neu ddethol;
  - Tystiolaeth o gydymffurfio â'r CCA hwn,
  - Manylion am ofal a chynnal a chadw'r gwaith/gweithiau celf yn y dyfodol.

## **8. Gweithredu**

### **8.1. Canllawiau Comisiynu**

- 8.1.1. Dylai'r datblygwyr a'r perchnogion tir ystyried y cyngor canlynol ar y cam cynharaf bosibl o'r broses ddylunio wrth ystyried darparu celf gyhoeddus 'mewn nwyddau', naill ai ar y safle neu oddi ar y safle.
- 8.1.2. Yn achos cynlluniau â gwerth cyfraniad celf gyhoeddus o hyd at £15,000, efallai y bydd datblygwyr eu hunain yn dewis ymgymryd â chomisiynu'r gwaith celf. Fodd bynnag, ar gyfer cynlluniau sydd â chyfraniad celf gyhoeddus gwerth mwy na £15,000, argymhellir bod datblygwyr yn cyflogi sefydliad celfyddydol neu ymgynghorydd celfyddydau cyhoeddus annibynnol y bydd ei wybodaeth arbenigol yn darparu gweledigaeth guradurol ar gyfer datblygu, a chysylltiadau ag artistiaid a'r gymuned.
- 8.1.3. Dylai datblygwyr gomisiynu artistiaid yn seiliedig ar gyd-destun eu hymarfer ac yn unol â briff yr artist, a/neu ymateb safle i gynllun neu strategaeth.
- 8.1.4. Bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos eu bod wedi caffael artist yn deg trwy broses agored. Ni fydd y Cyngor yn cefnogi datblygwyr i ddefnyddio un artist dros nifer o safleoedd datblygu, gan y gall hyn wneud y posibiladau celf gyhoeddus yn farwaidd a difywyd.
- 8.1.5. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y datblygwr a'r corff/ymgynghorydd celfyddydol a ddetholwyd, ynghyd â Swyddog Datblygu Celfyddydau'r Cyngor, yn ymgymryd â'r broses ddethol a chomisiynu a amlinellir yn y canllawiau isod. Fodd bynnag, bydd adegau lle gall y Cyngor ystyried ei bod yn angenrheidiol galw 'Panel Celf Gyhoeddus' i gynorthwyo i ddethol a chomisiynu gwaith celf gyhoeddus, er enghraifft; lle mae gwerth y gelf gyhoeddus yn fawr, a/neu mae'r safle datblygu o bwysigrwydd strategol.
- 8.1.6. Mae'n bwysig bod celf gyhoeddus yn cael ei thrafod rhwng y datblygwr a'r Cyngor ar y cyfle cynharaf bosibl i fod yn werth chweil i bawb sy'n gysylltiedig â'r fenter, ac i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau bosibl. Y cyntaf yn y byd yr ymgysylltir yr artistiaid, y mwyaf effeithiol fydd eu cyfraniad at y datblygiad. Argymhellir bod yr artist, neu'r ymgynghorydd celfyddydau, yn cael ei gyflogi i weithio fel aelod o'r tîm dylunio. Os caiff ei gynnwys ar y camau cynharaf, bydd yr artistiaid yn gallu cyfrannu'n llawn at estheteg y project adeiladu. Gallai hyn fod trwy drefniant gofodau, dewis deunyddiau a/neu benderfynu ar natur a lleoliad y gwaith celf sydd i'w integreiddio yn y datblygiad.

8.1.7. Nid yw'r Cyngor yn dymuno bod yn rhagnodol ynghylch integreiddio gwaith celf mewn cynigion datblygu, gan y dylai bob project fod yn unigryw o ran ei sgôp, ei ymagwedd a'i ymddangosiad. O ganlyniad, cynigia'r adrannau canlynol ganllawiau arfer gorau ar gyfnodau allweddol sy'n ymwneud â nodi cyfleoedd, dewis artistiaid a chomisiynu celf ar dir y cyhoedd.

## **8.2. Protocol ar gyfer Comisiynu Celf Gyhoeddus**

### **Cam 1 – Asesu'r Cyfleoedd**

8.2.1. Gan mai'r mathau mwyaf llwyddiannus o gelf yw'r rhai sydd wedi'u hintegreiddio o fewn dyluniad y cyfnod adeiladu neu'r gofod a'r manau allanol, dylai'r cyfnod cychwynnol hwn nodi cyfleoedd ar gyfer integreiddio gwaith artistiaid o fewn y datblygiad arfaethedig. Anogir datblygwyr i awgrymu cyfleoedd i ymgorffori celf gyhoeddus.

8.2.2. Ar y cam hwn, bydd angen cytuno ar y cyfraniad celf gyhoeddus gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, yn ogystal â dadansoddiad amlinellol o'r costau dynodedig a'r amserlen ar gyfer gweithredu.

8.2.3. Bydd angen i'r cyfraniad celf gyhoeddus dalu am gostau:

- Recriwtio a dethol artistiaid;
- Ffioedd artistiaid a gwneuthuriad;
- Cyngor arbenigol a rheoli projectau;
- Cyswllt â rhaglenni ymgysylltu â'r gymuned a rhaglenni addysg;
- Gosod a chynnal a chadw;
- Rheoli a chynnal a chadw'r gwaith gorffenedig yn y dyfodol; a
- Dadgomisiynu.

### **Cam 2 – Briff yr Artist**

8.2.4. Bydd dewis artistiaid yn cynnwys drafftio 'Briff yr Artist'. Bydd y Briff yn amlinellu'r cyd-destun, y cefndir a'r wybodaeth dechnegol sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn ogystal â nodi'r hyn sy'n ofynnol ac yn ddisgwyliedig o'r artist a'r gwaith celf sy'n deillio o hynny. Nid oes angen i'r briff fod yn hir, ond dylai gynnwys yr holl wybodaeth a gofynion perthnasol. Dylai sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn ddigon agored i ganiatáu lle i'r artist ddatblygu'r gwaith yn greadigol fel artist, ond eto'n ddigon manwl i sicrhau

canlyniad proffesiynol i bawb. Fel arwydd, dylai'r briff gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Nodau ac amcanion y comisiwn;
- Gwybodaeth gefndir sy'n darparu cyd-destun, hanes y project, mapiau, lluniadau, gofynion arbennig ayb;
- Disgrifiad o rôl yr artist;
- Manylion y tîm project a'u rolau a'u cyfrifoldebau (gan gynnwys unrhyw reolaeth project arbenigol ar gyfer y comisiwn);
- Disgrifiad o'r safle a'r amodau (gan ystyried hygyrchedd, effaith, diogelwch ac oblygiadau ariannol a, lle bo hynny'n bosibl, yn cynnwys yr artist wrth ddewis y safle);
- Cynnwys graddfa briodol o gyfranogiad cymunedol, pwy fydd yn rheoli'r broses ayb.;
- Amserlennu a chymau cyflwyno, gan gynnwys y dyddiad cau, rhestr fer a dyddiad cyfweld (os yw'n berthnasol);
- Cyllideb;
- Unrhyw ganiatâd cynllunio sydd ei angen;
- Disgrifiad o'r meini prawf a'r broses ddethol;
- Y rhaglen cynnal a chadw a gofynion gwydnwch a phwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw yn y tymor hir;
- Sefyllfa hawlfraint yr artist ac eglurhad o berchnogaeth gwaith;
- Unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol neu wedi'i chynllunio;
- Unrhyw gyfnod adolygu a gynlluniwyd;
- Polisi Datgomisiynu lle bo'n berthnasol.

### **Cam 3 – Dethol yr Artist**

8.2.5. Mae arfer gorau yn nodi y dylai'r manylion a gynhwysir ym mriiff yr artist hefyd ffurfio'r meini prawf ar gyfer tynnu rhestr fer o artistiaid, ac yna gwneud y dewis terfynol. Cynghorir y dull hwn gan ei fod yn osgoi'r posibilrwydd o wneud dewisiadau ar sail chwaeth bersonol a goddrychedd.

8.2.6. Fel arfer detholir yr artist gan y comisiynydd (datblygwr), y pensaer, yr asiantaeth gelf gyhoeddus a benodwyd a Swyddog Datblygu Celfyddydau'r Cyngor, y Panel Celf (os caiff un ei gynnull). Pan fo ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal, dylid hefyd wahodd cynrychiolydd o'r gymuned leol neu aelod ward i'r panel dethol. Dylai'r panel dethol gyfranogi o'r cam cynharaf, a hefyd gweld y broses drwodd hyd at ei chwblhau.

## Cam 4 - Cydweithio

8.2.7. Yn dilyn penodiad yr artist, mae arfer gorau yn argymhell bod yr artist yn ymwneud yn agos â'r broses ddylunio, yn enwedig lle mae'r gelf gyhoeddus arfaethedig wedi'i hintegreiddio i ffabrig adeiladau neu dir y cyhoedd cysylltiedig. Bydd y dull hwn yn caniatáu cynhyrchu'r canlyniadau gorau mewn perthynas ag ansawdd dylunio, gwerth a chyfleoedd datblygu. Bydd y cam dylunio hwn yn cynnwys:

- Rheoli'r broses ddylunio er boddhad y datblygwr a'r tîm dylunio;
- Cyfarfod safle er mwyn i'r cleient gwrrdd â'r artist/artistiaid a'r tîm dylunio;
- Sefydlu a monitro cam gweithdy cymunedol (lle bo angen);
- Monitro ac asesu'r prosesau gweithdy a dylunio;
- Cymorth gweinyddol, rheolaeth gytundebol ac ariannol;
- Aseiad o ansawdd ac aseiad ariannol o ddyluniadau'r artistiaid;
- Cytuno ar gynlluniau artistiaid gyda'r tîm cleient a dylunio;
- Cyflwyno cais cynllunio manwl y datblygiad ynghyd â chynlluniau celf manwl.

8.2.8. Bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r artist/iaid a/neu ymgynghorydd celfyddydol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn y gymuned lle mae'r datblygiad wedi digwydd, a lle bydd y gelf gyhoeddus yn cael ei lleoli. Dylai'r gymuned chwarae rôl gynhenid wrth hysbysu dyluniadau terfynol yr artist/iaid. Bydd hyn yn sicrhau bod celf gyhoeddus yn llwyddiannus, o ran perchnogaeth ac ymgysylltiad, cydlyniant cymdeithasol a grymuso cymunedau.

8.2.9. Bydd lefel yr ymgynghoriad yn dibynnu ar faint y cyfraniad. Gellir cael cyngor gan Swyddog Datblygu Celfyddydau'r Cyngor a Swyddog Adran 106 ynglŷn â lefel yr ymgynghoriad.

## Cam 5 – Cychwyn y Rhaglen Adeiladu a Gwneuthuriad yr Artist

8.2.10. Mae'r dyletswyddau o fewn y cyfnod olaf hwn yn cynnwys:

- Rheoli'r broses gomisiynu hyd at gwblhau'r gwaith;
- Cyfarfodydd tîm cleient a dylunio gydag artistiaid, yr asiantaeth gomisiynu neu ymgynghorydd llawrydd, contractwyr ac isgcontractwyr;
- Ymgynghori cyhoeddus pellach yn ôl yr angen;

- Cymorth gweinyddol, rheolaeth gytundebol ac ariannol;
- Rheoli gwneuthuriad yr artist a/neu'r is-gontractwr o'r gwaith celf;
- Ymweliadau safle terfynol, unrhyw drafferthion, cyflwyno'r gwaith a chwblhau ardystiedig;
- Rhaglen gynnal a chadw barhaus;
- Rhaglen Ddatgomiynu.

8.2.11. Yn achos gwaith celf pwrpasol a wneir gan yr artist/iaid, argymhellir cytundeb 3-ffordd rhwng yr artist, y cleient a'r asiantaeth gelfyddydau comisiwn neu ymgynghorydd celfyddydau annibynnol, sy'n cwmpasu holl gyfrifoldebau y gwahanol bartïon a'r rhwymedigaethau fel y nodir yn yr adran Contractau isod.

8.2.12. Mae'r cyngor uchod hefyd yn berthnasol i adrannau'r Cyngor wrth dderbyn cyfraniadau ariannol oddi ar y safle.

## 9. Contractau

9.1. Er mwyn gweithredu rhaglen gomisiynu lwyddiannus o fewn unrhyw ddatblygiad, rhaid cael fframwaith cytundebol cadarn, wedi'i gymeradwyo gan yr holl bartïon. Bydd y fframwaith hwn yn disgrifio nodau ac amcanion, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau'r cleient, yr artist(iaid) a'r asiant comisiynu. Dylai'r asiant comisiynu neu ymgynghorydd celf annibynnol fod yn gyfrifol am ddrafftio'r contractau o dan gyfarwyddyd y cleient. Gall trefniadau cytundebol amrywio yn ôl amgylchiadau projectau ond, yn gyffredinol, dylent gadw at y patrwm canlynol:

- Contract neu gytundeb ymgynghori rhwng y Cleient a'r Asiant Comisiynu;
- Cytundeb dylunio gydag Artist(iaid) penodedig i sicrhau cynnig (cynnigion) dylunio;
- Contract tair ffordd rhwng Cleient, Artist(iaid) a'r Asiant Comisiynu, i sicrhau gweithrediad y gwaith (gweithiau) y cytunwyd arnynt;
- Cytundebau isgontractiol safonol.

9.2. Dylai contractau gynnwys y canlynol:

- Cyfrifoldebau a rhwymedigaethau'r partïon dan gontract;
- Sicrwydd Perthnasol;
- Ffioedd;
- Cyfnod comisiynu (dyddiad cychwyn a chwblhau);
- Darparu gwasanaethau gan y partïon dan gontract;
- Hawlfraint a pherchenogaeth;
- Materion Iechyd a Diogelwch;
- Rhwymedigaethau Cynnal a Chadw;
- Perchnogaeth a Dyletswydd Gofal/ Cynnal a Chadw;
- Hyd y lleoliad neu arddangosiad o'r gwaith yn y parth cyhoeddus;
- Rhaglen Ddatgomiynu.

## **10. Perchnogaeth Gyfreithiol a Chynnal a Chadw**

- 10.1. Pan fo gwaith celf yn rhan o dir y cyhoedd a gynigir i'r Cyngor i'w fabwysiadu, bydd angen i'r Cyngor ofyn am asesiad o'r gofynion cynnal a chadw, a chynhwysir y gost hon fel rhan annatod o'r ddarpariaeth celf gyhoeddus. Yn yr achos hwn, bydd y Cyngor yn ceisio symiau gohiriedig i sicrhau bod darnau celf o'r fath yn cael eu cynnal yn y tymor hir trwy ddefnyddio cytundebau adran 106.
- 10.2. Ystyria'r Cyngor mai cyfrifoldeb perchennog yr eiddo yw cynnal a chadw, a dylai'r cyfrifoldeb hwn gael ei gynnwys mewn unrhyw drosglwyddiad o berchnogaeth. Dylid cynnwys cynnal a chadw'r gwaith celf mewn amserlenni cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer pob agwedd ar yr eiddo.
- 10.3. Pan gomisiynir celf gyhoeddus heb feddwl digon am gynnal a chadw tymor hir, y canlyniad yw na chaiff effeithiau ôl traul, difrod, fandaliaeth, baw a dirywiad syml eu hatal na'u cywiro, ac mae'r ased yn cael ei dibrisio a pheryglir enw da pawb sy'n gysylltiedig.
- 10.4. Nid oes rhaid i gynhaliaeth fod yn faich. Mae cynllunio gofalus yn ystod y Broses Gomisiynu, rhagofalon priodol, ac adnabod a defnyddio adnoddau yn effeithiol yn hanfodol i osgoi peryglon.



## 11. Rhagor o Wybodaeth a Chyngor

- 11.1. Gellir ceisio cyngor pellach ar bob agwedd ar y canllawiau hyn gan yr Adran Gynllunio a Swyddog Datblygu Celfyddydau'r Cyngor. Cyn cyflwyno cais cynllunio yn ffurfiol, mae'r Cyngor yn annog ymgeiswyr i ddefnyddio gwasanaethau cyn-gais y Cyngor a all arbed gwaith diangen, costau ac oedi trwy gyd-drafod. Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau cyngor cyn gwneud cais i'w gweld ar wefan y Cyngor [www.bromorgannwg.gov.uk/planning](http://www.bromorgannwg.gov.uk/planning)
- 11.2. Ceir amryw o asiantaethau ac ymgynghorwyr celf gyhoeddus arbenigol sy'n gallu rhoi cyngor ar bob agwedd ar gomisiynu Celf Gyhoeddus. Am ragor o gyngor ar weithio gydag artistiaid, ymgynghorwyr celfyddydau annibynnol ac asiantaethau comisiynu, cyfleoedd ariannu a chyngor arbenigol sy'n ymwneud â gweithio ym maes celfyddydau cyhoeddus, cysylltwch â swyddog canlynol Cyngor Bro Morgannwg:

### **Swyddog Datblygu'r Celfyddydau**

Neuadd y Dref, Sgwâr y Brenin,

Ffordd Holton

Y Barri

CF63 4RW

Ffôn: (01446) 709805

E-bost: [TCHarding@bromorgannwg.gov.uk](mailto:TCHarding@bromorgannwg.gov.uk)

### **Rheoli Datblygu**

Swyddfa'r Doc,

Dociau'r Barri,

Y Barri

CF63 4RT

Ffôn: (01446) 704681

E-bost: [planning@bromorgannwg.gov.uk](mailto:planning@bromorgannwg.gov.uk)

## 12. Atodiadau:

### 12.1. Atodiad 1: Polisiâu Cynllun Datblygu Lleol

#### **POLISI MD2 – DYLUNIAD DATBLYGIADAU NEWYDD**

Er mwyn creu lleoedd o ansawdd uchel, iach, cynaliadwy a hynod yn lleol, dylai cynigion datblygu:

1. Fod o safon uchel o ddyluniad sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun a chymeriad yr amgylchedd naturiol ac adeiledig o gwmpas ac sy'n diogelu nodweddion presennol y drefwedd neu ddiddordeb tirwedd;
2. Ymateb yn briodol i gyd-destun lleol a chymeriad adeiladau cyfagos a defnyddiau o safbwynt defnydd, math, ffurf, graddfa, cymysgedd a dwysedd;
3. Lle bo hynny'n briodol, darparu ardaloedd newydd o dir y cyhoedd yn arbennig mewn lleoliadau allweddol megis canol trefi, prif lwybrau a chyffyrdd;
4. Hyrwyddo creu amgylcheddau iach a gweithgar a lleihau'r cyfle ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn achos canolfannau manwerthu, dylai datblygiadau ddarparu blaenau stryd gweithredol i greu amgylcheddau trefol deniadol a diogel;
5. Darparu amgylchedd diogel a hygyrch i bob defnyddiwr, gan roi blaenoriaeth i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus;
6. Peidio â chael unrhyw effaith annerbyniol ar ddiogelwch y ffordd nac achosi neu waethygu'r tagfeydd traffig presennol i raddau annerbyniol;
7. Lle bo hynny'n briodol, gwarchod a gwella ansawdd, a mynediad at fannau agored presennol a chyfleusterau cymunedol;
8. Diogelu amwynder cyhoeddus a phreswyl presennol, yn enwedig mewn perthynas â phreifatrwydd, edrych drosodd, diogelwch, sŵn ac aflonyddwch;
9. Darparu mannau cyhoeddus, gofod amwynderau preifat, a pharcio ceir yn unol â safonau'r cyngor;
10. Ymgorffori tirlunio sensitif, gan gynnwys cadw a gwella, lle mae hynny'n briodol, y nodweddion tirwedd presennol a buddiannau bioamrywiaeth;


11. Darparu cyfleusterau a lle digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff ac archwilio cyfleoedd i ymgorffori deunyddiau neu gynhyrchion wedi'u hailddefnyddio neu eu hailgylchu mewn adeiladau neu strwythurau newydd; a
12. Lliniaru achosion o newid yn yr hinsawdd trwy leihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr eraill sy'n gysylltiedig â'u dyluniad, adeiladwaith, defnydd a'u dymchweliad yn y pen draw, a chynnwys nodweddion sy'n rhoi addasiad effeithiol ac yn gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd presennol ac i'r dyfodol.

#### **POLISI MD4 - SEILWAITH CYMUNEDOL A RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO**

Lle bo'n briodol ac o ystyried hyfywedd y datblygiad, bydd y cyngor yn ceisio sicrhau seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd a gwell sy'n briodol i raddfa, math a lleoliad y datblygiadau arfaethedig trwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio. Gall seilwaith cymunedol gynnwys darparu neu wella:

1. Tai fforddiadwy;
2. Cyfleusterau addysgol;
3. Seilwaith a gwasanaethau trafndiaeth ar gyfer cerddwyr, beicwyr, trafndiaeth gyhoeddus a thraffig cerbydau;
4. Man agored cyhoeddus, celf gyhoeddus, hamdden, chwaraeon a chyfleusterau hamdden;
5. Cyfleusterau cymunedol;
6. Cyfleusterau gofal iechyd;
7. Seilwaith gwasanaeth a chyfleustodau;
8. Gwarchod a gwella'r amgylchedd fel cadwraeth natur, atal llifogydd, adfywio canol trefi, rheoli llygredd neu adnewyddu hanesyddol;
9. Cyfleusterau ailgylchu a gwastraff; a
10. Cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau cyflenwol gan gynnwys hyfforddiant.

## 12.2. Atodiad 2: Enghreifftiau Llwyddiannus Diweddar o Gelf Gyhoeddus



Gweithdy  
Ysgol  
Gynradd  
Y Rhws

Diwrnod  
Agored  
Gwaith  
Celf

**Plinth 'Cytserau'**

*Ffotograffau: Cyngor Bro Morgannwg*

**Enw'r Safle: Channel Heights, Y Rhws**

**Cyf. Cais Cynllunio: 2012/00937/FUL**

### **Cefndir:**

Fel rhan o'r cais cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl newydd ar dir oddi ar Drem Echni, Y Rhws, cytunodd y datblygwr trwy Gytundeb Adran 106 i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus ar y safle, gwerth £41,139.00 (sef 1% o gostau adeiladu'r project). Cyflogodd Taylor Wimpey De Cymru, y datblygwr, Studio Response fel yr Ymgynghorwyr Celfyddydau dynodedig ar gyfer y project. Paratôdd Studio Response Gynllun Celf Gyhoeddus yn benodol ar gyfer y safle, gan amlinellu cyfres o nodau ac amcanion; gweledigaeth ar gyfer y safle; trosolwg o'r cyd-destun; amserlen ar gyfer gweithredu; dadansoddiad o'r gyllideb; cyfres o feysydd argymelledig ar gyfer projectau posibl ledled y safle, ac awgrymodd ystod amrywiol o artistiaid a allai ymateb ac ymgysylltu â'r datblygiad.

Penodwyd yr artist David Mackie o Gaerdydd trwy gyfrwng cyfweliad, a dylanwadwyd arno gan olygfa banoramig arfordirol y safle, a oedd yn addas i thema gwyllo sêr fel thema weledol gyfoethog, chwareus ac addysgol ar gyfer gwaith celf. Wrth ddatblygu ei gynigion, cynhaliodd Mackie nifer o sesiynau gweithdy gyda Blynyddoedd 4 a 5 yn Ysgol Gynradd Y Rhws. Yn y gweithdai, cyflwynwyd y plant i Gysawd yr Haul, a defnyddiodd y plant fodolau i helpu adnabod a lluniadu cytserau a dehongli delweddau a'r mythau y tu ôl iddynt.

Y gwaith celf parhaol a grëwyd yw 'Cytserau'. Mae ar ffurf llwyfan gwyllo addysgol sydd hefyd yn gweithredu fel man eistedd swyddogaethol. Mae'r gwaith celf yn cynnwys plinth siâp cilgant isel mewn cerrig pennant gyda chapan o gerrig pennant glas. Mae'r arwyneb yn ymgorffori dilyniant o gerfweddau efydd unigol sy'n darlunio rhai o'r cytserau, megis Sagittarius, Aquila, Orion, a Circinus i enwi ond ychydig.

Dadorchuddiwyd y gwaith celf ym mis Hydref 2016, ac roedd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhws yn gallu gweld sut roedd eu syniadau o'r gweithdai wedi bwydo i mewn i'r cynlluniau terfynol.

**Artist: David Mackie**



*Ffotograffau: Emma Price*

**Enw'r Safle: Golau Caredig, Y Barri**

**Cyf. Cais Cynllunio: 2011/00067/FUL**

**Cefndir:**


Sicrhodd y Cyngor gyfraniad celf gyhoeddus ar y safle o £56,000 (1% o gostau adeiladu) fel rhan o'r cais ar gyfer ailddatblygu hen Theatr Frenhinol, Broad Street, Y Barri, yn ddatblygiad gofal ychwanegol sy'n darparu 42 o fflatiau a manau cymunedol cysylltiedig.

Comisiynwyd y gwaith celf gan y datblygwr, Cymdeithas Gofal Hafod, i'r artist gwydr pensaernïol Kate Maestri. Roedd y gwaith yn cynnwys golau gweledol, wedi'i integreiddio'n llawn â phensaernïaeth Golau Caredig a'i amgylchoedd. Tynnodd Maestri ysbrydoliaeth am y gwaith celf a gyflwynwyd ar y ffasâd gwydr crwm o hanes Y Barri a'r dirwedd leol.

Mae'r golau newidiol yn llenwi'r grisiau canolog gyda lliw ac yn creu golygfa fywiog ar y drychiad blaen. Mae'r arlliw gwyrdd yn adleisio'r cefn gwlad o gwmpas Y Barri, tra bod y melyn a'r glas yn awgrymu'r arfordir, sy'n cysylltu'n agos â gorrffennol a phresennol y dref. Cynrychiola'r dyluniad haniaethol dramatig dreftadaeth Y Barri. Mae'r llinellau fertigol yn atgoffa rhywun o'r crynhoad o linellau rheilffordd a oedd unwaith yn gwneud Y Barri y porthladd allforio glo mwyaf ym Mhrydain.

Mae'r ymylon llorweddol yn talu teyrnged i'r theatr a'r sinema a oedd unwaith ar safle presennol Golau Caredig.

**Artist: Kate Maestri**



**Badgers Brook**

Engheifftiau  
o blaciau  
drws

Effaith  
ledrithiol ar  
yr Orsaf  
Bwmpio

*Ffotograffau: Phillip Roberts*

**Enw'r Safle: Badgers Brook, Cyf. Cais Cynllunio: 2013/00856/OUT  
Ystradowen**

**Cefndir:**

Fel rhan o'r cais cynllunio ar gyfer eiddo preswyl newydd yn Badgers Brook Rise, Ystradowen cytunodd y datblygwr trwy Gytundeb Adran 106 i ddarparu celf gyhoeddus ar y safle, gwerth £19,500 (sy'n cyfateb i 1% o gostau adeiladu'r project).

Cyflogodd Bellway Homes, y datblygwr, Studio Response fel yr Ymgynghorwyr Celfyddydau dynodedig ar gyfer y project. Paratôdd Studio Response Gynllun Celf Gyhoeddus yn benodol ar gyfer y safle, gan amlinellu cyfres o nodau ac amcanion; gweledigaeth ar gyfer y safle; trosolwg o'r cyd-destun; amserlen ar gyfer gweithredu; dadansoddiad o'r gyllideb; cyfres o feysydd argymelledig ar gyfer projectau posibl ledled y safle, ac awgrymodd ystod amrywiol o artistiaid a allai ymateb ac ymgysylltu â'r datblygiad.

Comisiynwyd Jin Eui Kim, artist ceramig o Gaerdydd, gan Bellway Homes a Studio Response i greu gwaith celf gyhoeddus penodol i'r safle, ac i ddarparu ateb dylunio artistig ar gyfer gorsaf bwmpio Dŵr Cymru. Yn ystod ymchwil Jin, gwelodd nad oedd gan y tai newydd rifau ar y drysau, ac o ystyried dyluniad syml yr anheddau, taniodd hyn ei ddychymyg i greu cynnig artistig o blaciau drws ceramig i bob un o'r 40 o dai a adeiladwyd ar y safle, i greu unffurfiaeth.

Yn ogystal â phlaciau drws, creodd Jin hefyd ddyluniad trwy gymhwysu'r egwyddorion o greu gofod lledrithiol trwy raddio'r arlliw. Bwriedir i'r ffenomenau lledrithiol a grëir yn y ffyrdd hyn fod yn ddiddorol, dal dychymyg y gwylwr, a chynnig posibiliadau newydd o ran addurno'r ddau waith celf seramig a thrwy baentio ffens bresennol yr orsaf bwmpio. Mae'r cynlluniau hyn wedi ychwanegu gwerth at yr anheddau, ac wedi creu elfen nodedig o'r safle datblygu.

**Artist: Jin Eui Kim**





Cyngor Bro Morgannwg  
**Cyfarwyddiaeth Adfywio a  
Chynllunio**  
Swyddfa Doc  
Barri Doc  
Barri Cf63 4RT

[LDP@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:LDP@valeofglamorgan.gov.uk)  
[www.valeofglamorgan.gov.uk](http://www.valeofglamorgan.gov.uk)